

Cyngor Cymuned Llanelian (247)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Hydref 1af, 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Helen Woodcock T Elfyn Hughes Helen Hughes
Thomas D Jones Dafydd Griffiths Hefina Williams
Cyng. Richard Jones

Ymddiheuriadau: Glenys Jones

1 Datgan Diddordeb

Cais Cymdeithas y Leinws am Arian – Hefina Williams a TD Jones yn datgan diddordeb

2 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd Cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig TD Jones, Eilio Hefina Williams.

3 Materion yn Codi

3.1 Fferm Wynt Rhiannon – nid oes cyfarfod arall wedi cymryd lle gyda'r Cyngorau Cymuned eraill hyd heddiw. Y Clerc i gysylltu a Chadeirydd Grwp Gogledd Mon i gael dyddiad pendant. CET

3.2 Cae Chwarae –

- Mae'r warden gwn yn ymwybodol o'r broblem yn y cae chwarae ac am drefnu ymweliad cyn gynted ag sy'n bosib.
- ROSPA – maent yn archwilio caeau chwarae Mon pob mis Mehefin, ac felly bydd y gost o archwilio i ni eleni yn £218 (+TAW) yn hytrach na'r £88 fel nodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Pawb yn cytuno bod angen archwiliad ac asesiad risg cyn gynted ag syn bosib, a threfnu bod y cae yn cael ei archwilio eto ym Mehefin. CET

3.3 Cyswllt a'r Adran Briffyrdd –

- Cadarnhad bydd y llinellau melyn yn cael eu paentio ar y ffordd ger y traeth cyn gynted ag y bydd y contractwyr ym Mon eto.
- Cadarnhad bod yr adain draffig yn edrych i fewn i'r mater o gael arwydd ar gyfer cerbydau mawr ar lonydd Mynydd Eilian.
- Gwaith ar y ffyrdd heb gychwyn o ddifrif, er bod y lon wedi ei farcio.
- Cyng Richard Jones am edrych i fewn i'r rheswm pan nad yw'r lon o Ysgubor lthal i Bengorffwysfa yn cael ei adnabod gan yr adran briffyrdd ac wedi ei ddsbarthu. Nid yw yn cael ei adnabod ar gyfer unrhyw waith arwynebu na graeanu yn y gaeaf. ROJ

3.4 Hyfforddiant Cod Ymddygiad – cafwyd adroddiad byr gan y Cadeirydd a'r Clerc yn dilyn Hyfforddiant a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor Sir yn Llangejni.

3.5 Sbwriel yn y Gilfan – ar ddeall gan y Cyngor Sir bod y gilfan wedi ei chlirio ac bod y clawdd wedi ei dorri. Nid oedd Glenys Jones yn bresennol i adrodd yn ol.

4 Cynllunio

4.1 Gwybodaeth ychwanegol wedi dod i law am gais ar gyfer gorsaf trin nwy ar hen safle Great Lakes yn Amlwch.

4.2 Gwybodaeth ychwanegol wedi dod i law am gais am dri ty ger Lletroed Fawr. Cytuno ysgrifennu at yr ardan gynllunio eto i ddatgan pryder am y datblygiad (Tir gwlyb; Carffosiaeth yn broblem yn barod – Dwr Cymru yn gweithio yno ar hyn o bryd i geisio datrys problemau cyfredol, mae Cyngor yn cwyno ers rhai blynyddoedd; Arogl yn y cae chwarae a'r ardal gyfagos; adeiladau ddim o'r un cymeriad a'r tai sydd yn yr ardal gyfagos) CET

4.3 Cais Glan Eilian am dy gwair wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir.

5 Cyfrifon

5.1 Mae UHY Hacker Young wedi cymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer 2012/13, y cam nesaf yw rhoi cyfle i'r etholwyr gael golwg arnynt petai gofyn. CET

5.2 Cyflwynwyd y ffeil gyfrifon i unrhywun oedd a diddordeb yn ei gweld ac fe gafodd nifer o anfonebau eu cymeradwyo, gan gynnwys cais y Clerc i brynnu adnoddau h.y. papur, inc a ffeiliau. CET

6 Cais am Gymorth Ariannol

6.1 Cofeb y Cymry yn Fflandrys - Mae ehost wedi ei dderbyn yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at codi cofeb i'r Cymry, gan mai Cymru yw'r unig genedl heb gofeb yn Fflandrys. Cost y prosiect yw £90,000,

gyda oddeutu £30,000 wedi ei godi yn barod. Y gobaiith yw codi digon o arian fel bod y gofeb yn ei lle erbyn canmlwyddiant cychwyn y rhyfel yn 2014.

Cytuno rhoi cyfraniad tuag at yr achos, y Clerc i drafod a chynghorau eraill i weld maint cyfraniad ardaeloedd eraill. CET

6.2 Cymdeithas Llenyddol y Leinws – Mae cais am gymorth ariannol wedi dod i law, ond gyda TD Jones a Hefina Williams yn datgan diddordeb, bydd angen trafod y cais yn y cyfarfod nesaf. Y Clerc i adrodd yn ol i'r Gymdeithas fel eu bod yn ymwybodol. CET

7 Unrhyw Fater Arall

7.1 Swyddfa Bost Penysarn – Mae'r siop wedi cau yn di-rybydd, ac mae si yn y pentref bod y swyddfa bost hefyd yn cau yn yr wythnosau nesaf. Cytuno y dylid gysylltu a'r Brif Swyddfa Bost ym Mangor i weld os ydi'r sibrydion yn wir, ac os ydi, beth yw'r opsiynnau i'r swyddfa yn y pentref. CET

Mae'r swyddfa yn bwysig iawn i drigolion y pentref, ac mae'r Cyngor yn bryderus iawn o'i golli. Bydd y Cyngor yn barod i gefnogi unrhyw gais i symyd y swyddfa i'r Siop os byddai perchennog y siop am i hyn ddigwydd. Y Clerc i gysylltu a'r Cyng Aled Morris Jones i drafod gan ei fod eisioes yn ymwybodol o'r sefyllfa.

Bydd angen cadw golwg ar geisiadau cynllunio yn ymwneud ag adeilad y post, gan mai'r si yw ei newid yn fflatiau. Bydd hyn yn achosi mwy o drafferthion parcio yn y pentref. CET

7.2 Safle Gwastraff Penhesgyn – Mae'r drefn o fynd a gwastraff i'r safle (ac i Walchmai) wedi newid yn ddi-rybydd. Nid oes modd mynd a gwastraff yno mewn cerbyd masnachol (fan o unrhyw fath), na threlar sy'n fwy na maint penodol, heb gael permit gan yr adran wastraff ymlaen llaw. Teimlai'r Cyngor nad oedd unrhyw ymgynghoriad na hysbysu wedi bod cyn i'r newidiadau yma gymryd lle, ac y bydd yn arwain at wastraff yn cael ei adael ar ochr y ffordd ar draws y wlad – mae hyn yn broblem eisioes. Cytuno ysgrifennu at yr adran wastraff i holi am y newidiadau a mynegi pryder. CET

7.3 Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru Ardal Mon - Mae'r cyfarfod yn cymryd lle nos Fercher Hydref 9ed yng Ngwesty'r Bull, Llangefni am 7 o'r gloch. Bydd Helen Woodcock yn mynychu ar ran y Cyngor ac yn adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf. HW

7.4 Cofeb Penysarn – Cytuno gofyn i R Edwards dorri a thwtio o amgylch y gofeb cyn Sul y Cofio. CET

7.5 Tir ger Ynys Bach a'r Cae Chwarae – Mae perchnogion newydd Ynys Bach ar ddeall mai nhw sydd berchen ar y llain tir rhwng Ynys Bach a'r cae chwarae. Y Cyngor sydd berchen arno, y cytundeb gweiddiol oedd bod gan Mr Hardman (perchennog Ynys Bach gynt) yr hawl i fynd yno i dorri ei glawdd pan fod angen. Mae'r perchennog newydd wedi gofyn am gadarnhad ysgrifennedig i berchnogaeth y tir. Y Clerc i ysgrifennu ato i gadarnhau bod y Cyngor yn archwilio'r mater. Y Clerc hefyd i edrych drwy'r cofnodion a gwaith papur yn ymwneud a sefydlu'r cae chwarae ac adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf. CET
CET

7.6 Pen y Bryn, Llaneilian - Mae'n debyg bod gwyl heddychlon i fod i fod wedi ei gynnal ar y tir yma ond nad oedd trefniadau wedi ei cwblhau. Roedd gwyl tebyg wedi ei gynnal yng Nghemaes llynedd.

7.7 Rheolau y Cyngor - Gofynnwyd i'r Clerc erdrych i fewn i reolau'r Cyngor a chadarnhau yn y cyfarfod nesaf beth yw'r cworwm, a rheolau datgan diddordeb os nad yw'r penderfyniadau o fudd bersonol uniongyrchol i'r unigolyn dan sylw. CET

8 Dyddiadau y Cyfarfodydd Nesaf

Tachwedd 12, 2013; Rhagfyr 10, 2013

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8yh.